# Cynllun Natur y Bobl

Raglen Weithgareddau

Cynllun Natur y Bobl

# Wythnos 1 - Beth yw natur a pham mae angen ei warchod? (11 – 13 Tachwedd 2022)

## Nos Wener

### Croeso

- Croeso cyffredinol i'r cynulliad.
- Trosolwg i'r rhai sy'n bresennol o'r hyn y dylid ei ddisgwyl o broses y cynulliad.
- Esboniad o effaith ehangach proses Cynllun Natur y Bobl.
- Cyfle i archwilio'r gofod arddangos a oedd yn cynnwys darluniau o syniadau o'r Sgwrs Genedlaethol ar gyfer Cynllun Natur y Bobl.
- Cinio a chyfle i bobl ddod i adnabod ei gilydd

## Bore Sadwrn

### Pwnc: Beth yw natur a pham ddylen ni ei gwarchod?

- Fideo rhagarweiniol gan **Syr David Attenborough**
- **Yr Athro Nathalie Seddon: 'Beth yw natur a pham ddylen ni ei gwarchod?'**
  Roedd y sgwrs hon yn rhoi trosolwg o'r hyn yw 'natur a 'bioamrywiaeth', a pham eu bod yn bwysig o safbwynt gwyddonol. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith bod y ffordd y mae natur yn cael ei gweld a'i gwerthfawrogi yn amrywio o ran gofod ac amser, ac ymysg gwahanol ddiwylliannau.
- Amser ar gyfer trafodaeth a myfyrdodau
- **Tony Juniper, Cadeirydd Natural England: 'Beth mae natur wedi'i wneud i ni erioed?'**
  Roedd y sgwrs hon yn rhoi trosolwg o pam mae natur yn bwysig a sut rydym yn dibynnu arni yn y DU, gan ymdrin â'r achosion perthnasol a diogelwch.
- **Dr Radhika Borde: 'Gwerth anniriaethol natur - arwyddocâd ysbrydol, crefyddol a diwylliannol'.**
  Roedd y sgwrs hon yn trafod gwerth anniriaethol natur, yn y DU ac yn fyd-eang, gan ganolbwyntio'n benodol ar ei harwyddocâd ysbrydol, crefyddol a diwylliannol.
- Trafodaeth a sesiwn Holi ac Ateb

### Pwnc: Sut ydyn ni wedi cyrraedd yma?

- **Syr John Lawton: 'Y sefyllfa bresennol o ran natur a sut rydyn ni wedi dod i'r sefyllfa hon?'** Trafodwyd prif ysgogwyr colli bioamrywiaeth yn fyd-eang, gan ganolbwyntio ar sut mae'r rhain wedi effeithio ar natur yn y DU.
- Trafodaeth

## Prynhawn Sadwrn

### Pwnc: Pwy sy'n gyfrifol am yr heriau hyn?

- **Ruchir Shah, Cyfarwyddwr Materion Allanol yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt: 'Pwy sy'n gyfrifol am fynd i'r afael â'r heriau hyn'** – Rhoddodd y sgwrs hon drosolwg byr o'r gwahanol actorion, gan helpu cyfranogwyr i ddeall ystod a graddfa'r camau y gallai'r cynulliad eu hargymell a sicrhau eu bod yn cael eu targedu'n briodol. Mae'r actorion yn cynnwys:
    - Llywodraeth y DU a Gweinyddiaethau Datganoledig
    - Awdurdodau Lleol
    - Busnesau / Diwydiant
    - Cyrff Anllywodraethol Bywyd Gwyllt ac Amgylcheddol
    - Cymunedau / Dinasyddion
- Trafodaeth, sesiwn holi ac ateb ac ymarfer llunio gweledigaeth cychwynnol

## Bore Sul

### Pwnc: Gosod y cyd-destun ar gyfer creu gweledigaeth

- **Ella Saltmarshe: 'Meddwl yn hirdymor a bod yn hynafiad da'.** Roedd y sgwrs hon yn cyflwyno'r cysyniad o stiwardiaeth amgylcheddol a'i rôl o ran mynd i'r afael â'r argyfwng natur.
- **Yr Athro Bill Sutherland: 'Mae'r argyfwng natur yn un y gellir ei ddatrys, ond mae'n rhaid i ni ddefnyddio tystiolaeth'.** Roedd y sgwrs hon yn tynnu sylw at y ffaith bod yr argyfwng natur yn un y gellir ei ddatrys ac yn dangos bod gennym becyn atebion y mae'n rhaid ei ddefnyddio ar raddfa fawr, gan ddefnyddio tystiolaeth i lywio penderfyniadau.

- **Sgwrs gan Dr Radhika Borde o Brifysgol Leeds,** i dynnu sylw at y ffaith bod yn rhaid i aelodau'r cynulliad ystyried tegwch, cyfiawnder a thrawsnewid cyfiawn wrth iddynt drafod camau gweithredu posibl. Gan edrych ar gyd-destun y DU, bydd materion fel mynediad at natur, cyfiawnder wrth wneud penderfyniadau a sicrhau trawsnewid cyfiawn (lle gallai bywoliaeth draddodiadol fod mewn perygl o ganlyniad i newidiadau arfaethedig) yn hwyluso trafodaethau drwy gydol y cynulliad.
- Trafodaeth, sesiwn holi ac ateb, ymarfer creu Gweledigaeth, dirwyn i ben, a'r camau nesaf.

Cynllun Natur y Bobl

# Wythnos dau – Diogelu ac adfer natur
# (3 - 4 Rhagfyr 2022)

## Bore Sadwrn

**Pwnc: Sut rydym yn defnyddio ein tir, ein hafonydd a'n moroedd, pa fframweithiau sydd ar waith i warchod natur a pham nad yw'r rhain wedi gweithio?**

- Croeso cyffredinol i'r cynulliad ar lein.
- Gair i atgoffa aelodau'r cynulliad am benwythnos cyntaf y cynulliad gan Pete Smith.
- **Yr Athro Nathalie Seddon, Prifysgol Rhydychen ac Arweinydd Academaidd,** yn croesawu aelodau'r cynulliad yn ôl, yn ailadrodd yr hyn a drafodwyd yn Mhenwythnos 1 ac yn rhoi trosolwg o dir, dŵr croyw a môr y DU.
- **Richard Benwell, Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Link: 'Cynefinoedd, rhywogaethau a'r mecanweithiau diogelu sydd ar waith ar hyn o bryd'**
- Mae'r sgwrs hon yn cyflwyno cynefinoedd, rhywogaethau a phrosesau cysylltiedig y DU ac yn rhoi crynodeb o'r mesurau diogelu sydd ar waith ar hyn o bryd, gan gynnwys drwy ardaloedd gwarchodedig, systemau cynllunio, deddfwriaeth, a pham mae'r rhain ar waith.
- **Nadia Shaikh, Ymgynghorydd Natur Llawrydd: 'Pam nad yw'r mesurau diogelu presennol yn cyflawni dros natur?'**
- Mae'r sgwrs hon yn archwilio pam, er bod rhai enghreifftiau o fesurau diogelu natur effeithiol, mai'r darlun cyffredinol yw nad yw'r rhain wedi llwyddo i atal y dirywiad.
- **Trafodaethau grŵp:**
- Pa wybodaeth o'r sgyrsiau yma a hoeliodd eich sylw, ac rydych yn teimlo ei bod yn bwysig dysgu mwy amdani?
- A glywsoch chi unrhyw beth a wnaeth eich synnu chi?
- Cyn ymuno â'r sesiwn hon, beth oeddech chi'n ei wybod, os unrhyw beth, am ardaloedd gwarchodedig a mesurau diogelu ar gyfer natur yn y DU? Ydych chi erioed wedi ymweld ag ardal warchodedig? Ydych chi wedi gweld ardaloedd gwarchodedig ar raglenni teledu? Pa ardal warchodedig sydd agosaf i'r fan lle rydych chi'n byw?
- Egwyl
- **Trafodaethau grŵp – gwneud synnwyr o'r hyn a glywsom. Awgrymiadau:**

  - Beth sy'n hoelio eich sylw ym mhob cyflwyniad?

- Beth sy'n ymddangos yn ganolog i'n dealltwriaeth o'r sefyllfa bresennol a'r heriau sy'n gysylltiedig â hi?
- Beth yn eich barn chi yw rôl allweddol y mecanweithiau hyn ar gyfer gwarchod a diogelu natur?
- Beth fyddech chi'n disgwyl ei weld pe bai'r mesurau diogelu'n effeithiol? h.y. beth fyddai sefyllfa dda?
- Yn eich grŵp, cytunwch ar y 2 – 3 phroblem/rhwystr allweddol mawr mewn perthynas â'r dull presennol o roi mecanweithiau ar waith i warchod a diogelu natur - *Beth sy'n rhwystro hyn?*
- Os oes amser, ystyriwch pa rai o'r ffactorau sy'n chwarae rhan yma, a pham maent yn cael eu rhwystro rhag gweithredu'n effeithiol?

## Prynhawn Sadwrn

### Pwnc: Sut gall Mesurau Diogelu weithio?

Wedi clywed pam nad yw'r mesurau diogelu presennol wedi arwain at ddiogelwch digonol i natur yn gyffredinol, bydd aelodau'r cynulliad yn clywed am rai enghreifftiau lle maent *wedi* bod yn effeithiol. Yn bwysig, bydd y cyflwyniadau hyn yn trafod y ffactorau sy'n galluogi llwyddiant o ran diogelu, yn ogystal â'r rhwystrau, fel y gall aelodau'r cynulliad ystyried sut y gellid defnyddio'r rhain i wneud mesurau diogelu fwy effeithiol.

- **Sara McGuckin, Prif Swyddog Gwyddonol Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon: 'Sut mae mesurau diogelu cyfreithiol ar safle rhyngwladol bwysig wedi arwain at ganlyniadau da i natur?'** yn trafod y pwnc hwn drwy gan gyfeirio at astudiaeth achos o Ballynahone Bog.
- **Tom Tew, Nature Space: 'Sut gall cynllunio helpu, gan ganolbwyntio ar lefel awdurdod lleol'**
  Edrychodd y drafodaeth hon ar gynlluniau trwyddedu ar lefel rhanbarth ar gyfer y fadfall ddŵr gribog, gan dynnu sylw at le maent wedi arwain at ganlyniadau da i natur.
- **COAST, Community of Arran Seabed Trust: 'Parth 'Dim Tynnu' yr Alban yn ysbrydoli yng Nghyfarfod Platfform Life yr UE'.**
  Aelodau'r Cynulliad yn gwylio ffilm fer sy'n dangos cynllun diogelu natur effeithiol dan arweiniad y gymuned leol.
- **Sam Beaumont, Fferm Gowbarrow Hall: 'Ffermio mewn tirwedd warchodedig'**
  Mae'r sgwrs hon yn canolbwyntio ar y ffactorau galluogi a'r heriau sy'n gysylltiedig â ffermio mewn tirwedd warchodedig.

- **Trafodaethau grŵp bach wedi'u hwyluso:**
  - Pa wybodaeth o'r sgyrsiau hynny a hoeliodd eich sylw, ac rydych yn teimlo ei bod yn bwysig dysgu mwy amdani?
  - A glywsoch chi unrhyw beth a wnaeth eich synnu chi?
- Egwyl
- **Trafodaethau grŵp – Nodi meysydd ffocws posibl ar gyfer 'Galwadau i Weithredu' sy'n ymwneud ag ardaloedd gwarchodedig:**
  - Pa wybodaeth sy'n dod i'r amlwg am yr hyn sy'n gweithio o ran mesurau diogelu?
  - Beth yw'r ffyrdd cyffredin/effeithiol o fynd i'r afael â rhwystrau/anawsterau?
  - Beth ddylen ni fod yn rhoi sylw go iawn iddo wrth geisio diogelu/adfer natur?
- Dirwyn i ben

## Bore Sul

### Pwnc: Datgysylltu oddi wrth Natur- Ailgysylltu â Natur

Archwiliodd aelodau'r Cynulliad sut mae datgysylltu oddi wrth natur – o'r unigolyn i'r lefel strwythurol – yn sbardun i'r argyfwng bioamrywiaeth. Dysgodd y cynulliad am sut mae hyn yn effeithio ar wahanol rannau o gymdeithas a chlywodd am rai o'r rhesymau dros ddatgysylltu, gan dynnu sylw arbennig at drefoli parhaus. Ar ben hynny, cafwyd enghreifftiau o ailgysylltu â natur, y manteisionsy'n gysylltiedig â hyn, a sut gellid defnyddio'r enghreifftiau hyn i ehangu mynediad gwell at natur i bawb.

- **Yr Athro Miles Richardson: 'Rôl cysylltu â natur a'i gwella i uno llesiant pobl a natur ill dau'**
  Mae'r sgwrs hon yn trafod datgysylltu oddi wrth natur, ei effeithiau, sut mae'r rhain yn amrywio ar draws cymunedau/grwpiau oedran a'r effeithiau y mae hyn yn eu cael ar wneud penderfyniadau ar lefel strwythurol.
- **Maxwell Ayamba, Mudiad Amgylcheddol Sheffield: 'Mynediad at natur a sut mae hyn yn amrywio ar draws gwahanol gymunedau'**
  Mae'r sgwrs hon yn trafod sut mae mynediad at natur yn amrywio ar draws gwahanol gymunedau, nid yn unig mewn dinasoedd, ond yng nghefn gwlad hefyd. Goblygiadau anghydraddoldeb o ran mynediad at natur, enghreifftiau o ganlyniadau pan fydd mynediad at natur wedi cael ei wella a sut gellir cefnogi/hwyluso hyn yn well.
- **Gillian Dick, Cyngor Dinas Glasgow: 'Prosiectau gwyrddio trefol gweithredol'**

Mae'r sgwrs hon yn trafod enghreifftiau o brosiectau gwyrddio trefol gweithredol ac ôl-osod gwelliannau i ansawdd dŵr mewn trefi/dinasoedd. Mae'n archwilio beth yw'r manteision lluosog, yn ogystal â'r heriau a'r ffactorau galluogi wrth gyflawni'r rhain.

- **Nigel Symes, RSPB: 'Datblygiadau tai newydd gan ystyried mesurau sy'n ystyriol o fioamrywiaeth'**
  Mae'r sgwrs hon yn defnyddio'r enghraifft o ddatblygiad Barratt Homes Kingsbrook i ddangos sut y gellir adeiladu tai newydd gyda natur mewn golwg. Mae'n ymdrin â'r heriau a'r ffactorau galluogi.
- **Kat Deeney, Cyngor Dinas Plymouth:** 'Sut y gellid gwneud penderfyniadau mewn ffordd wahanol pe bai'r rhai o gwmpas y bwrdd yn gysylltiedig â natur, ac yn atebol iddi?' Mae'r sgwrs hon yn cyflwyno'r cysyniad o Brifddinas Naturiol a sut mae Cyngor Dinas Plymouth wedi defnyddio hyn i roi sedd i fyd natur wrth y bwrdd gwneud penderfyniadau.
- Rhannu i gynnal trafodaethau grŵp bach
- Toriad 10 munud
- **Trafodaethau grŵp: Nodi meysydd ffocws posibl ar gyfer 'Galwadau i Weithredu' sy'n ymwneud â datgysylltu oddi wrth natur ac ailgysylltu â natur:**
  - **Beth sy'n hoelio eich sylw ym mhob cyflwyniad?**
  - **Beth sy'n ymddangos yn ganolog i'n dealltwriaeth o'r sefyllfa bresennol a'r heriau sy'n gysylltiedig â hi?**
  - **Beth yw canlyniadau pobl yn cael eu datgysylltu oddi wrth natur?**
  - **Beth yw canlyniadau llunwyr penderfyniadau yn datgysylltu oddi wrth natur?**
  - **Beth yw prif elfennau ailgysylltu â byd natur?**
  - **Beth all helpu i sicrhau bod natur yn hygyrch i bawb?**
  - **Beth mae'n ei olygu i roi sedd i fyd natur wrth y bwrdd penderfynu?**
- Egwyl am ginio

## Prynhawn Sul

### Pwnc: Adfer natur

Aeth y sesiwn hwn y tu hwnt i drafod diogelu natur i ystyried adfer natur – sut gallem ystyried adfer natur lle mae wedi cael ei golli? Clywodd aelodau'r Cynulliad am y cysyniad o adfer natur a rhai o'r heriau i'w hystyried wrth fynd i'r afael â hyn, yn ogystal â'r cyfaddawdu posibl. Cawsant wybod am gynlluniau i adfer natur ar amrywiaeth o raddfeydd (gan gynnwys sut mae'r rhain wedi cael eu galluogi, neu ddim, gan ein ffordd

bresennol o wneud pethau), beth y gellir ei ddysgu o'r enghreifftiau hyn, ac ystyried beth allai alluogi mwy o adfer natur.

- **Yr Athro Rosemary Hails, Cyfarwyddwr Natur a Gwyddoniaeth, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol: 'Beth rydym yn ei olygu wrth sôn am adfer?'**
  Mae'r sgwrs hon yn rhoi trosolwg ar y cysyniad o adfer, pam ei fod yn bwysig a sut/lle y gall fod yn llwyddiannus yn y DU heddiw, gan gynnwys ailgyflwyno rhywogaethau.
- **Philip Price, Seawilding: 'Mentrau adfer a arweinir gan y gymuned'**
  Mae'r sgwrs hon yn edrych ar Seawilding, prosiect adfer wystrys a morwellt brodorol cyntaf y DU, sy'n cael ei arwain gan y gymuned. Mae'n egluro'r ffactorau galluogi a oedd yn cefnogi datblygiad y prosiect a'r heriau y bu'n rhaid eu goresgyn.
- **James Rainey, Uwch Ecolegydd yn Trees for Life: 'Dad-ddofi tir Ucheldiroedd yr Alban'**
  Mae'r drafodaeth hon yn trafod prosiect uchelgeisiol sy'n mynd rhagddo yn Ucheldiroedd yr Alban, sy'n canolbwyntio ar ddad-ddofi tir 'dan arweiniad proses'. Ymdrin â'r llwyddiannau, ynghyd â'r mesurau galluogi a'r rhwystrau a wynebwyd ar hyd y ffordd.
- **Tim Ferrero, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Hampshire ac Ynys Wyth: 'Solent mwy Gwyllt'**
  Mae'r sgwrs hon yn rhoi golwg gyffredinol ar raglen adfer uchelgeisiol a phartneriaeth aml-asiantaeth sy'n cael ei datblygu ar draws Y Solent; ardal boblog iawn ar arfordir de Lloegr sy'n cynnwys tir amaethyddol, dŵr croyw a chynefinoedd arfordirol. Mae'n edrych ar y manteision lluosog o gynnal y math hwn o brosiect o ran natur a hinsawdd, ond hefyd yr heriau a'r rhwystrau.
- **Trafodaethau grŵp bach**
- **Toriad 15 munud**
- **Trafodaethau grŵp – gwneud synnwyr o'r hyn a glywsom.**
  - Beth sy'n hoelio eich sylw ym mhob cyflwyniad?
  - Beth sy'n ymddangos yn ganolog i'n dealltwriaeth o'r sefyllfa bresennol a'r heriau sy'n gysylltiedig â hi?
  - Beth yw'r prif anawsterau a'r heriau o ran sicrhau bod gwaith adfer llwyddiannus yn digwydd?
  - Pam mae'n ymddangos ei bod yn anodd gwneud mwy ohono? Ble mae'r problemau a'r heriau? Sut mae'r rhain yn amrywio mewn enghreifftiau trefol o'i gymharu ag ardaloedd gwledig?
  - Beth sy'n ymddangos yn elfennau pwysig wrth adfer byd natur yn llwyddiannus?
  - Ble gall adfer chwarae rhan effeithiol?

- **Cyflwyno casgliadau ar draws y pedair sesiwn**
- **Dirwyn i ben a chloi Penwythnos 2**